**Taflen Ffeithiau 27 Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol** **Awst 2016**

# Asesiadau Gwasanaethau Oedolion

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Gofal Cymdeithasol Oedolion – yn cefnogi mynediad teg i ofal a chymorth o safon uchel i'r bobl sydd fwyaf angen cymorth. Byddwn yn trafod eich sefyllfa unigol chi gyda chi. Gelwir y sgwrs hon yn asesiad.

Efallai y byddwch yn gofyn am asesiad oherwydd eich bod y teimlo bod angen help arnoch chi, neu oherwydd eich bod yn gofalu am rywun sydd angen gofal a/neu gymorth.

## Mae'r hyn sy'n bwysig i chi, yn bwysig i ni

Bydd aelod o staff yn trafod gyda chi yr hyn sy'n bwysig i chi; er enghraifft, y pethau rydych yn hoffi eu gwneud, y bobl rydych yn hoffi treulio amser gyda nhw a sut mae unrhyw newidiadau yn eich sefyllfa yn eich effeithio chi. Gall hyn gynnwys heriau sy'n eich wynebu sy'n effeithio ar eich annibyniaeth.

Gall newidiadau bach wneud gwahaniaeth mawr a gall yr asesiad fod yn ffordd o adnabod atebion syml i'ch sefyllfa. Gall hyn gynnwys awgrymiadau ynglŷn â chymorth nad yw'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mater i chi yw hi os ydych yn dymuno defnyddio'r wybodaeth a dilyn y cyngor.

Mae fideo ynglŷn ag asesiad ar gael yma.

Gan gymryd eich blaenoriaethau chi i ystyriaeth, bydd Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion yn defnyddio **meini prawf cymhwyster** mewn perthynas â'ch sefyllfa ac efallai y bydd yn argymell gofal a/neu gymorth a ariennir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Bydd yr aelod staff yn trafod hyn gyda chi.

Medrwch ddewis lle i gyfarfod gyda'r aelod staff ar gyfer y sgwrs a'r asesiad; gall fod yn eich cartref, man gwaith neu ysbyty. Medrwch ddewis cael rhywun gyda chi ar gyfer yr asesiad, ac efallai yr hoffech feddwl am y pethau sydd fwyaf pwysig i chi cyn eich asesiad.

Ni chodir tâl am asesiad, ond efallai y bydd angen i chi gyfrannu tuag at gost y gofal a/neu drefniadau cymorth. Medrwch ddarllen mwy am hyn yn y daflen ar **dalu am ofal.**

## Ein manylion cyswllt

Os ydych angen mwy o help, cysylltwch â ni.

**Ffôn:** 01495 762200

**Ebost:**
socialcareCallTorfaen@torfaen.gov.uk

**Ein Cyfeiriad:**
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB

*Gellir cael y daflen hon mewn ieithoedd a ffurfiau eraill. Cysylltwch â ni i drefnu hyn.*